| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Bwrdd y Cyngor |
| **DYDDIAD** | 19 Chwefror 2008 |
| **TEITL** | Cyfundrefn Arbedion 2008/09 |
| **PWRPAS** | Diweddaru'r Bwrdd ar gynnydd yn erbyn y targedau:<br>- arbedion ariannol o £4miliwn<br>- arbedion effeithlonrwydd cyfwerth â £1.913miliwn |
| **ARGYMHELLIAD** | I dderbyn y cynnydd |
| **AWDUR** | Ian Mowatt, Uwch Reolwr Caffael ac Effeithlonrwydd |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cynghorydd Richard Parry Hughes |

**1. Cefndir**

1.1 Pwrpas y papur hwn yw diweddaru'r Bwrdd ar y sefyllfa o ran cyfarfod â tharged arbedion 2008/09. Yn amlwg, mae cyswllt gyda phapur ar Strategaeth Ariannol y Cyngor gan y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau gerbron y Pwyllgor heddiw.

1.2 Hyd yma, mae'r Cyngor wedi gosod targed arbedion o £4m fel sail cynllunio, nid yn unig ar gyfer 2008/09 ond hefyd 2009/10 a 2010/11. Bellach, ymddengys yn y Strategaeth Ariannol ddrafft mai targed arbedion o £3.514m sy'n angenrheidiol, ac felly, mae'r adroddiad hwn yn dangos perfformiad i'r perwyl hynny yn erbyn targed £4m a £3.514m.

1.3 Mae amcangyfrif yr arbedion ariannol parhaol tuag at darged arbedion sail cynllunio o £4miliwn yn £4.001miliwn fel y nodir yn y tabl isod.

**2. Y sefyllfa ddiweddaraf yn erbyn targed Strategaeth Ariannol 2008/09**

2.1 Mae amcangyfrif yr arbedion ariannol parhaol tuag at darged drafft y Strategaeth Ariannol o £3.514miliwn yn £4.001miliwn fel y nodir yn y tabl isod, sy'n cyfateb â 114% o darged y Cyngor.

2.2 NODER - mae'r targedau a pherfformiad wedi ei nodi fesul Pennaeth Gwasanaeth yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar 13 Rhagfyr 2007 i fabwysiadu targedau gwahaniaethol am y cyfnod 2008/09 – 2010/11.

2.3 Mae'r sefyllfa ddiweddaraf yn erbyn y targed fesul gwasanaeth i'w weld yn y tabl isod.

| Cyfadran | Targed cynllunio £4m | Targed £3.514m £ | Cadarn £ | Cynlluniedig £ | Cyfanswm £ | % o'r targed £4m | % o'r targed drafft £3.514m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Dynol | 28,521 | 24,970 | 30,000 | 0 | 30,000 | 105% | 120% |
| Cefnogaeth Gofal Cwsmer | 86,511 | 75,750 | 127,500 | 0 | 127,500 | 147% | 168% |
| Cyllid | 86,267 | 75,520 | 60,660 | 0 | 60,660 | 70% | 80% |
| Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd | 141,785 | 124,150 | 117,000 | 0 | 117,000 | 83% | 94% |
| Uned PaPh Adnoddau | 10,012 | 8,770 | 0 | 0 | 0 | 0% | 0% |
| **CYFANSWM ADNODDAU** | **353,096** | **309,160** | **335,160** | **0** | **335,160** | **95%** | **108%** |
| Cynllunio a Thrafnidiaeth | 199,628 | 174,800 | 62,878* | 79,500 | 142,377 | 71% | 81% |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 591,598 | 518,000 | 308,752* | 250,000 | 558,751 | 94% | 108% |
| Ymgynghoriaeth | 85,075 | 74,490 | 70,800* | 62,330 | 133,130 | 156% | 179% |
| Uned PaPh Amgylchedd | 16,878 | 14,780 | 0 | 40,000 | 40,000 | 237% | 271% |
| **CYFANSWM AMGYLCHEDD** | **893,179** | **782,070** | **442,430** | **431,830** | **874,260** | **98%** | **112%** |
| Dysgu Gydol Oes | 306,436 | 268,320 | 11,197* | 318,978* | 330,175 | 108% | 123% |
| Economi ac Adfywio | 61,399 | 53,760 | 641* | 92,232* | 92,873 | 151% | 173% |
| Plant | 215,491 | 188,680 | 201,479* | 39,213* | 240,692 | 112% | 128% |
| Ysgolion (Canolog) | 375,492 | 328,790 | 173,753* | 187,534* | 361,287 | 96% | 110% |
| Uned PaPh Datblygu | 15,364 | 13,460 | 0 | 20,000 | 20,000 | 130% | 148% |
| **CYFANSWM DATBLYGU** | **974,182** | **853,010** | **387,070** | **657,957** | **1,045,027** | **107%** | **123%** |
| Darparu | 28,365 | 24,840 | 0 | 30,200 | 30,200 | 107% | 122% |
| Gwasanaethau Oedolion | 820,675 | 718,590 | 118,000 | 700,750 | 818,750 | 99.8% | 114% |
| Tai | 31,529 | 27,600 | 0 | 0 | 0 | 0% | 0% |
| Uned PaPh Gofal | 19,760 | 17,310 | 0 | 0 | 0 | 0% | 0% |
| **CYFANSWM GOFAL** | **900,329** | **788,340** | **118,000** | **730,950** | **848,950** | **94%** | **108%** |
| **Prif Weithredwr** | **38,698** | **33,890** | **39,620** | **0** | **39,620** | **102%** | **117%** |
| Ysgolion Datganoledig | 747,516 | 654,530 | 765,310 | 0 | 765,310 | 102% | 117% |
| Cynlluniau Corfforaethol | 93,000 | 93,000 | 93,000 | 0 | 93,000 | 100% | 100% |
| **Cyfanswm** | **4,000,000** | **3,514,000** | **2,180,590** | **1,820,737** | **4,001,327** | **100%** | **114%** |

* - arbedion yr Unedau Cefnogol wedi eu dyrannu i'r gwasanaethau perthnasol

2.4 Gweithredir y cynlluniau o fewn dau gategori, sef:

- Cadarn – wedi ei gweithredu a'r gyllideb wedi ei haddasu
- Cynlluniedig - cynlluniau sydd wrthi'n cael eu datblygu neu angen eu hawdurdodi ar gyfer eu gweithredu.

2.5 Noder bod elfen o ansicrwydd yn gysylltiedig â'r cynlluniau yn y categori cynlluniedig o ran yr union swm fydd ar gael. Bwriedir darparu cyllid pontio ar gyfer cynlluniau sydd â cynllun gweithredu cadarn yn unig (swm i'w gadarnhau).

2.6 Noder o ran y cynlluniau corfforaethol sy'n cael eu datblygu mae, hyd yma, oddeutu £199,703 o arbedion ychwanegol i'r uchod wedi eu hadnabod ar gyfer 2008/09.

## 3. Sefyllfa ddiweddaraf yn erbyn y targed arbedion effeithlonrwydd 08/09

3.1 Mae amcangyfrif diweddaraf yr arbedion yn erbyn y proffil blynyddol o 1%, sef £1.913m yn £1.392m. Gweler manylion pellach yn y tabl isod. Noder nad yw'r broses o wirio cynlluniau unigol i gadarnhau mai arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau ydynt wedi ei gwblhau.

| | **Cadarn £'000** | **Cynlluniedig £'000** | **Cyfanswm £'000** | **% o'r £1.913m** |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Dynol | 5,000 | 0 | 5,000 | |
| Cefnogaeth Gofal Cwsmer | 107,500 | 0 | 107,500 | |
| Cyllid | 31,530 | 0 | 31,530 | |
| Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd | 61,000 | 0 | 61,000 | |
| **CYFANSWM ADNODDAU** | **205,030** | **0** | **205,030** | |
| Cynllunio a Thrafnidiaeth | 0 | 0 | 0 | |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 193,190 | 45,000 | 238,190 | |
| Ymgynghoriaeth | 0 | 62,330 | 62,330 | |
| Unedau Canolog Amgylchedd | 0 | 40,000 | 40,000 | |
| **CYFANSWM AMGYLCHEDD** | **193,190** | **147,330** | **340,520** | |
| Dysgu Gydol Oes | 0 | 43,840 | 43,840 | |
| Economi ac Adfywio | 0 | 44,000 | 44,000 | |
| Plant | 100,000 | 0 | 100,000 | |
| Ysgolion (Canolog) | 0 | 0 | 0 | |
| Unedau Canolog Datblygu | 10,000 | 0 | 10,000 | |
| **CYFANSWM DATBLYGU** | **110,000** | **87,840** | **197,840** | |
| Darparu | 0 | 0 | 0 | |
| Gwasanaethau Oedolion | 0 | 649,450 | 649,450 | |
| Tai | 0 | 0 | 0 | |
| **CYFANSWM GOFAL** | **0** | **649,450** | **649,450** | |
| Prif Weithredwr | 0 | 0 | 0 | |
| **CYFANSWM** | **508,220** | **884,620** | **1,392,840** | **73%** |

## 4. Argymhelliad

4.1 Gofynnir i'r Bwrdd ystyried a derbyn sefyllfa ddiweddaraf arbedion 2008/09.

A. Barn yr Aelod Lleol:-

B. Barn y Swyddogion Statudol:-

1. Prif Weithredwr :- “Mae'r gwaith o ganfod yr arbedion angenrheidiol wedi bod yn anodd ac mae'n bwysig cydnabod yr ymdrech sydd wedi bod ynghlwm â hyn ar draws y cyfadrannau a'r gwasanaethau. Wrth gwrs, er ein bod yn llongyfarch y gwaith hyd yn hyn, mae'n rhaid cofio, yng nghyd-destun sefyllfa gyllidol tymor hwy y Cyngor, bod y pwysau yn cynyddu. Golyga hyn bod angen sylw manwl ar wireddu'r arbedion a ddisgrifir ar hyn o bryd fel rhai cynllunedig a rhaid rhoi egni newydd i fewn i'r broses o ganfod arbedion newydd ar gyfer gofynion y dyfodol."

2. Swyddog Monitro:- “Mae’r adroddiad yn gosod y ffeithiau yn glir ac nid oes gennyf sylwadau o safbwynt priodoldeb.”

3. Prif Swyddog Cyllid:- “Cadarnhaf fod yr Unedau Cyllid yn cydweithredu yn barhaus gyda'r Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad er mwyn gwirio fod modd gwireddu'r arbedion ariannol adroddir arnynt yma. Er gwaethaf profiad cymysg ymysg y gwasanaethau unigol, yn gyffredinol credaf y bu cynnydd rhesymol tuag at dargedau arbedion ariannol y gwasanaethau ar gyfer 2008/09. Yn anffodus, mae arwyddion y bydd sicrhau arbedion effeithiolrwydd, yn hytrach na thoriadau, yn gynyddol heriol mewn blynyddoedd dilynol.

   Hefyd, mae risg ynghlwm â’r ffaith fod cyfran helaeth o arbedion ariannol 2008/09 yn parhau i fod â statws “Cynlluniedig” yn hytrach na “Chadarn”. Mae cyfran helaeth o arbedion ariannol 2008/09 (ar draws y cyfadrannau) yn parhau i fod â statws “Cynlluniedig”, tra mae arbedion 2008/09 i fod yn weithredol o’r 1af Ebrill 2008. Bydd sawl cynllun angen amser i’w weithredu a chynhyrchu buddion hirdymor, a bydd raid darparu cyllid pontio ar gyfer rhain.
   Bydd aelodau’r Bwrdd eisoes yn gyfarwydd â’r penderfyniad i gau Pwll Nofio Harlech ar 31/03/2009, sydd angen ‘pontio’ am 12 mis, a bu adolygiad diweddar o anghenion cyllid pontio pob gwasanaeth. Nodaf fod cronfa cyllid pontio wedi’i sefydlu eleni (wrth adolygu cyllideb refeniw 2007/08 yn chwarterol), ac fel rhan o Strategaeth Ariannol 2008/09 bydd darpariaeth ddigonol i’r perwyl yn y gronfa benodol yma.”

C. Papurau Cefndir

CH. Goblygiadau Polisi